

**Grid Gweithredu ar 14 Ionawr 2014**

**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

**Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2013**

Rhif Cyfeirnod y Nodiadau	Cam gweithredu	Cynnydd	Camau i'w cymryd	Statws
4.2	Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y ffaith mai bwriad papur Llywodraeth Cymru oedd nodi ein fframwaith ar gyfer buddsoddi ac mae'n amlinellu tri maes â blaenoriaeth sef Pobl, Busnes a Lle. Cynigiodd y dylid cynnal gweithdy gydag Aelodau'r Cyngor ym mis Tachwedd er mwyn datblygu fersiwn drafft y Fframwaith, ac y gallai'r newyddion diweddaraf gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.	<b><i>Cynhaliwyd gweithdy ar 3 Rhagfyr. Mae'r Fframwaith Economaidd yn eitem 3 ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 3 Chwefror .</i></b>		Wedi'i gwblhau
4.20	Gofynnodd y Prif Weinidog i aelodau'r Cyngor roi eu sylwadau ar strwythur y Cyngor i Tracey Burke	<b><i>Cafwyd pedwar ymateb. Mae'r rhain, ynghyd â sylwadau a gafwyd eisoes, yn cael eu hystyried.</i></b>	Caiff y dull gweithredu cytûn o ran dyfodol cyfarfodydd y Cyngor a'i aelodaeth ei ymgorffori yn y Cynllun Busnes diwygiedig.	Yn mynd rhagddo
6.1 a 6.2	Awgrymodd Paul Byard y dylid cynnwys y farchnad ynni ddireolaeth fel eitem mewn cyfarfod yn y dyfodol. Nododd fod hwn bellach yn peri pryder i aelodau a phed ymdrinnid â'r mater hwn gallew weld mwy o fusnesau yn ceisio buddsoddi yng Nghymru. Cadarnhaodd y Prif Weinidog ei gefnogaeth i'r sylwadau hyn, a nododd fod hwn yn fater sy'n peri pryder penodol i fusnesau ynni-ddwys oherwydd y diffyg	<b><i>Eitem 4 ar yr agenda yw hyn ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 3 Chwefror.</i></b>		Wedi'i gwblhau

**Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2013**

Rhif Cyfeirnod y Nodiadau	Cam gweithredu	Cynnydd	Camau i'w cymryd	Statws
	disgowntiau sydd ar gael ar gyfer swmp-brynu ynni.			
6.11	Cytunodd y Prif Weinidog y dylai papurau gael eu dosbarthu i Aelodau 28 diwrnod cyn cyfarfodydd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.		Swyddogion i ddosbarthu papurau 28 diwrnod cyn cyfarfodydd y Cyngor.	
	<b>CAMAU HEB EU CYMRYD O'R CYFARFOD AR 3 MEHEFIN</b>			
4.14	Tuag at Strategaeth Ddiwydiannol Gymreig - papur TUC Cymru - cytunwyd i ailystyried yr eitem hon yn y cyfarfod ym mis Hydref, ac yn y cyfamser bydd y gweithgor yn ystyried pa gamau i weithredu arnynt.	Eitem 4 ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 7 Hydref 2013 wedi'i hategu gan bapurau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a phapur ar y cyd gan CBI Cymru a TUC Cymru.	Trafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Hydref 2013. Cytunwyd y byddai hyn yn eitem ar yr agenda yn y cyfarfod ar 3 Chwefror 2014. Cyfeiriad ym mhwynt 4.2 o nodyn y cyfarfod - gweler uchod.	Wedi'i gwblhau
6	Trywydd yr Economi Werdd - Peter Davies i ystyried sylwadau a'r Gweithgor i benderfynu ar y camau nesaf.	Papur i'w nodi wedi'i dderbyn yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Hydref.	Darperir diweddariadau pellach, fel y bo'n briodol, wrth i'r gwaith fynd rhagddo	Wedi'i gwblhau
	<b>CAM HEB EI GYMRYD O'R CYFARFOD AR 28 IONAWR 2013</b>			
6.3	Papur ar rôl y lluoedd arfog fel sbardun economaidd yng Nghymru.	Trafodwyd papur yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Gweithgor ac fe'i cynhwysir fel papur i'w nodi ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror.	Bydd y Gweithgor yn ailystyried yr eitem hon mewn cyfarfod yn y dyfodol.	Wedi'i gwblhau